

CYFLWYNIAD

- 1 Mae'r cylchlythyr hwn yn ceisio barn ar gynigion ar gyfer defnyddio'r Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol yng ngoleuni ymrwymiad penaethiaid y sefydliadau, drwy Addysg Uwch Cymru (AUC), i sefydlu a gweithredu Fframwaith Strategol a Chynllun Datblygu ar gyfer Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog.

CEFNDIR

- 2 Y bwriad gwreiddiol oedd adolygu'r trefniadau ar gyfer y Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg er mwyn gallu gweithredu trefniadau newydd o'r flwyddyn academaidd 2006/07. Ond oherwydd yr asesiad o opsiynau a gynhaliwyd yn 2006 a'r angen i aros am ganlyniadau'r asesiad er mwyn penderfynu sut y dylid defnyddio'r arian hwn yn y dyfodol, parhawyd â'r trefniadau presennol am flwyddyn arall. (Gweler Atodiad A am fanylion y trefniadau.)
- 3 Yng ngoleuni'r Fframwaith Strategol a Chynllun Datblygu newydd ar gyfer y sector, mae angen edrych o'r newydd ar y modd y defnyddir y cyllid datblygu sy'n cael ei ddarparu gan CCAUC i sicrhau ei fod yn cefnogi'r Cynllun.
- 4 Sefydlwyd y Grŵp Sector Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg (GSAU CC) tua diwedd 2007 i yrru'r Fframwaith Strategol a'r Cynllun Datblygu yn eu blaen. Mae'n cynnwys cynrychiolydd uwch o bob sefydliad addysg uwch.
- 5 Mae gan y Cynllun Datblygu sy'n cael ei roi yn ei le gan y GSAU CC bedair adran: y Fframwaith Strategol; Datblygu Darpariaeth; Marchnata a Dilyniant; a Datblygu Staff. Cyfeirir ato isod fel Cynllun Datblygu'r Sector.
- 6 Trafodwyd sylwedd yr ymgynghoriad hwn mewn papur a baratowyd gan CCAUC ar gyfer cyfarfod y GSAU CC ar 19 Mehefin. Hefyd mae'r trafodaethau yng nghyfarfod y GSAU CC wedi cyfrannu at yr ymgynghoriad, fel y nodir mewn manau priodol isod.

MEINI PRAWF ALLWEDDOL YN Y DYFODOL AR GYFER Y GRONFA

- 7 Er mwyn sicrhau bod y Gronfa'n cefnogi Cynllun Datblygu'r Sector, byddai CCAUC yn disgwyl y câi'r meini prawf allweddol canlynol eu mabwysiadu:
 - Defnyddir y cyllid i hybu datblygu ac ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
 - Defnyddir y cyllid yn uniongyrchol i gefnogi Adran 2 o Gynllun Datblygu'r Sector (Datblygu Darpariaeth). Ni fydd prosiectau nad ydynt yn gyson â'r cynllun yn cael eu cyllido.
 - Defnyddir y cyllid yn strategol i sicrhau'r budd mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael.
 - Dyrennir y cyllid yn erbyn cynlluniau datblygu clir y mae ganddynt allbynnau mesuradwy, targedau ac amserlenni, gan gynnwys ar gyfer paratoi a gwneud darpariaeth, a chofrestriadau myfyrwyr, a bydd cynnydd yn cael ei fonitro'n agos yn erbyn y rhain.
 - Bydd mecanweithiau ar gyfer gohirio, adennill neu dynnu cyllid yn ôl os nad yw prosiectau'n gwneud y cynnydd y cytunwyd arno, neu os nad oes sicrwydd digonol y gellir gwneud cynnydd. Caiff y cyllid hwn ei ailddyrranu i brosiectau eraill.
- 8 Cymeradwywyd y meini prawf hyn gan y GSAU CC.
- 9 Oherwydd y cysylltiad â Chynllun Datblygu'r Sector, bydd y Gronfa'n cael ei galw'n Gronfa Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg CCAUC.

TREFNIADAU YN Y DYFODOL AR GYFER Y GRONFA DATBLYGU DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG

- 10 Bydd CCAUC yn disgwyl cael ei fodloni bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio'n strategol ac effeithiol. Mae hefyd yn hanfodol bod modd dangos hyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o unrhyw ddatl a gyflwynir dros gyllid ychwanegol.
- 11 Mae'r trefniadau isod o fewn cyd-destun y rhan a chwaraeir gan y GSAU CC wrth lunio Cynllun Datblygu'r Sector ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Maent hwy hefyd yn cael eu mynegi yn nhermau amserlen sy'n dechrau yn 2007/08, er bod yr amserlen ar gyfer symud i'r trefniadau newydd yn cael ei thrafod ymhellach ym mharagraffau 18 i 24.
- 12 Bydd £390,000 ar gael i'r Gronfa Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn 2007/08. Disgwyliwn ddarparu swm cyffelyb yn y blynyddoedd i ddod. (Fodd bynnag, er y gallwn roi ffigurau arwyddol mewn egwyddor, ni allwn sicrhau y bydd cyllid ar gael cyn i setliad grant CCAUC ar gyfer y flwyddyn academaidd dan sylw gael ei gadarnhau.)
- 13 Y nod fydd cynhyrchu cynllun cyllido ar gyfer y sector o 2007/08, ynghyd â dyraniadau cyllid arwyddol ar gyfer y ddwy flynedd nesaf, tra'n cadw peth hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau newydd. Ni ddylid edrych ar brosiectau fel rhai sy'n para am gyfnod penodol; yn hytrach, dylid meddwl amdanynt mewn ffordd strategol er mwyn rhoi cyfle i unrhyw ddarpariaeth newydd ennill ei phlwyf. O fewn maes pwnc neu ddisgyblaeth neilltuol, mae'n bosibl y bydd prosiectau llai, neu gamau mewn prosiect, ond dylai'r rhain fod yn rhan o strategaeth ehangach y sector ar gyfer y pwnc yn ei gyfanrwydd.
- 14 Bydd rhai o'r prosiectau a gyllidir yn dod drwy'r cynlluniau ar gyfer y rhestr gychwynnol o bynciau a nodwyd gan y GSAU CC ar gyfer datblygu cydweithiol yn y sector. Gall prosiectau eraill gael eu cynnig gan un sefydliad, neu grŵp llai o sefydliadau, os ystyrir bod mäs critigol o ddarpariaeth/darparwr arweiniol. Byddai CCAUC yn disgwyl y bydd sefydliadau'n gallu defnyddio eu hadnoddau eu hunain/cael cyllid o ffynonellau eraill i gyfrannu at rai prosiectau.
- 15 Bydd angen llunio rhaglen ddatblygu a gyflwynir yn raddol. O ran blaenoriaethu'r rhestr o bynciau ar gyfer datblygu cydweithiol, awgrymwn fod hyn yn cael ei ystyried yn ystod yr haf/ar ddechrau'r hydref drwy ymgynghori rhwng swyddogion CCAUC a'r Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg (CDACC) ac aelodau'r GSAU CC. Yn yr un modd, gwahoddir sefydliadau i fynegi diddordeb mewn meysydd pwnc eraill lle yr ystyriant fod ganddynt rôl arweiniol/darpariaeth *niche* a thrafodir y rhain ymhellach â CCAUC/CDACC, gan gynnwys unrhyw botensial ar gyfer cydweithio. Yna deuir â rhaglen ddatblygu i gyfarfod cyntaf y GSAU CC yn y flwyddyn academaidd 2007/08.
- 16 O ran dyraniadau o'r Gronfa, cynigir y dylid gwneud y rhain yn erbyn y rhaglen ddatblygu gan banel sy'n cynnwys cadeirydd y GSAU CC, Cyfarwyddwr y CDACC, swyddogion CCAUC, a hyd at dri aelod allanol a wahoddir gan gadeirydd y GSAU CC. Bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy gyfrwng proses o drafod a chytuno fel rheol. Yn achos pynciau a flaenoriaethwyd ar gyfer datblygu cydweithiol, gellid rhoi swm o arian o'r neilltu ar gyfer maes pwnc neilltuol, os caiff cynlluniau datblygu priodol eu rhoi gerbron (gan gynnwys drwy'r paneli rhwydwaith cyfrwng Cymraeg – y paneli pwnc cyfrwng Cymraeg gynt). Yn achos ceisiadau gan sefydliadau unigol, byddid yn gofyn am gynigion manwl yn sylfaen ar gyfer rhyddhau dyraniad. Disgwylir i'r holl ddeunyddiau ac adnoddau a gynhyrchir gyda chymorth Cronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg CCAUC fod ar gael i'r holl sefydliadau yn y sector. Byddir yn cytuno ar sut i gyflawni hyn yn ystod y trafodaethau ar y prosiectau y bwriedir eu hariannu.
- 17 Roedd aelodau'r GSAU CC yn gefnogol i'r trefniadau newydd ar gyfer y Gronfa.

YR AMSERLEN AR GYFER Y TREFNIADAU NEWYDD

- 18 Wrth baratoi'r papur i'w drafod yng nghyfarfod y GSAU CC, cydnabuom na allem symud yn syth i ddull dyrannu newydd ac felly roeddem wedi awgrymu disodli'n raddol y dyraniadau uniongyrchol o'r Gronfa a dderbynnir gan rai sefydliadau drwy gyflwyno'r dull newydd dros gyfnod o ddwy flynedd.
- 19 O dan y trefniadau presennol, mae Prifysgol Cymru, Bangor, Coleg y Drindod a Phrifysgol Cymru, Aberystwyth yn derbyn dyraniadau uniongyrchol o'r Gronfa ar sail eu lefel uwch o gofrestrïadau cyfrwng Cymraeg o'i chymharu â sefydliadau eraill yn y sector. (Mae Athrofa Addysg Uwch, Caerdydd (AAUC) yn derbyn dyraniad uniongyrchol llawer llai, ond mae hi hefyd wedi gallu gwneud ceisiadau am arian yn ychwanegol at hyn.) Byddem yn disgwyl felly y byddai gan PC Bangor, Coleg y Drindod a PC Aberystwyth yn arbennig rai datblygiadau sy'n cynrychioli ymrwymïadau parhaus. Awgrymwyd i'r GSAU CC y gellid cael cyfnod trosiannol pan fyddai'r tri sefydliad hyn yn derbyn cyfran o'u dyraniadau presennol (dyweder oddeutu 60% yn 2007/08 (sef £105K) a 30% yn 2008/09 (sef £70K)). Ond byddid yn gofyn iddynt nodi'r meysydd pwnc lle y câi'r cyllid hwn ei ddefnyddio, er mwyn gallu eu cynnwys yn y cynllun datblygu ar gyfer y sector, a chyflwyno cynigion manylach ar gyfer defnyddio'r cyllid, fel y nodir ym mharagraffau 15 ac 16, yn sylfaen ar gyfer rhyddhau'r dyraniadau. Ni fyddai hyn yn golygu na allent gyflwyno mynegiadau o ddiddordeb i geisio cyllid ar ben y dyraniadau hyn, na chael cyllid drwy'r cynlluniau ar gyfer datblygu cydweithiol.
- 20 Mae'r strategaeth uchod yn golygu symud fesul cam o'r broses ddyrannu bresennol i'r un newydd. Sut bynnag, nodwyd yng nghyfarfod y GSAU CC fod CCAUC yn barod i ystyried dulliau mwy radicalaidd.
- 21 Roedd aelodau'r GSAU CC, yn enwedig y rheiny o'r sefydliadau y byddai'r drefn newydd yn effeithio fwyaf arnynt, yn poeni y byddai hyd yn oed peth gostyngiad yn y dyraniadau a glustnodwyd ar eu cyfer yn 2007/08 yn dadsefydlogi datblygiadau a oedd eisoes wedi'u cynllunio ac y gallai hyn danseilio'r ewyllys da tuag at y Fframwaith Strategol a Chynllun Datblygu newydd. Byddai'n well ganddynt gael blwyddyn o rybudd ac yna doriad glân, gan gyflwyno'r dull newydd yn llawn yn 2008/09. Roedd y Grŵp yn gwerthfawrogi'r pwyntiau hyn.
- 22 Oherwydd y pryderon hyn, awgrymwn ddull arall i'w ystyried fel rhan o'r ymgynghoriad hwn:

2007/08

- i) Bydd PC Bangor, Coleg y Drindod, PC Aberystwyth ac AAUC yn parhau i dderbyn yr un dyraniadau creiddiol ag yn 2006/07, gyda chynnydd yn unol â'r cynnydd cyffredinol a gymhwyswyd at grant addysgu CCAUC i'r sefydliadau.
- ii) Bydd y gyfran o'r Gronfa sydd wedi cael ei rhoi o'r neilltu fel y gall AAUC a sefydliadau eraill wneud ceisiadau am gyllid datblygu i'r CDACC yn cael ei chynyddu mewn ffordd gyffelyb.
- iii) O dan y trefniadau presennol, neilltuir cyfran o'r Gronfa (tua £43K yn 2006/07) ar gyfer gwneud taliadau ychwanegol ar sail cynnydd mewn cofrestrïadau yn erbyn man cychwyn 2001/02. Nid yw'r cynnydd mewn cofrestrïadau mewn sefydliadau unigol wedi bod yn ddigon mawr i'r elfen hon gael ei dyrannu'n llawn ers cyflwyno'r trefniadau hyn ar gyfer y Gronfa. (Mae'r gweddill wedi cael ei ychwanegu at y cyllid datblygu a ddarperir gan y CDACC.) Hefyd bydd hi'n anos gwneud mesuriadau cyson yn erbyn man cychwyn 2001/02 yn sgil newidiadau i'r cymhwyster ar gyfer cyllid premiwm a gyflwynir yn 2007/08 gan fod y data hwn wedi cael ei ddefnyddio hefyd i gyfrifo'r cofrestrïadau CALI ychwanegol ar gyfer yr elfen hon o'r Gronfa. Bydd angen i ni benderfynu a ddylid parhau â'r elfen hon yn y modd hwn yn 2007/08. Byddai'n well gennym roi'r gorau iddi a'i hychwanegu at y swm yn (iv) isod.

- iv) Bydd y swm sy'n weddill o'r cyfanswm o £390K sydd ar gael ar gyfer 2007/08 yn cael ei ddyrannu fel y nodir ym mharagraff 16. Bydd peth neu'r cyfan o hyn yn cael ei roi o'r neilltu ar gyfer y pynciau a nodwyd gan y GSAU CC ar gyfer datblygu cydweithiol.

2008/09

Cyflwyno'r dull newydd yn llawn, gan ymgynghori â'r sefydliadau ar eu cynlluniau neu ymrwymadau presennol.

- 23 Bydd y dull a nodir uchod yn sicrhau'r sefydlogrwydd y mae'r sefydliadau'n chwilio amdano ar gyfer 2007/08 drwy gadw'r dyraniadau uniongyrchol i'r pedwar sefydliad dan sylw a rhoi swm o'r neilltu yn benodol ar gyfer gwneud dyraniadau i weddill y sector ac i AAUC. Serch hynny, hoffem weld y drefn a nodir ym mharagraffau 15 ac 16 yn cael ei dilyn yn 2007/08, a byddwn yn gweithio gydag aelodau'r GSAU CC a staff eraill yn y sector, AUC a swyddogion y CDACC i ddechrau llunio rhaglen y sector ar gyfer datblygu darpariaeth a phenderfynu sut y bydd y Gronfa Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn helpu i gefnogi hyn.
- 24 Felly hoffem weld pob cynnig ar gyfer defnyddio cyllid yn 2007/08 yn cael ei ystyried gan y panel a ddisgrifir ym mharagraff 15, ac yn erbyn y meini prawf ym mharagraff 7, fel y bo'n briodol.
- Byddai hyn yn cynnwys:
- y cynigion gan PC Aberystwyth, PC Bangor, Coleg y Drindod ac AAUC ar gyfer defnyddio eu dyraniadau uniongyrchol (ystyri'r rhain gan swyddogion CCAUC a'r CDACC ar hyn o bryd). Roedd aelodau'r GSAU CC o blaid hyn ar y cyfan;
 - y cynigion ar gyfer defnyddio'r swm a roddir o'r neilltu at ddefnydd sefydliadau eraill ac AAUC (mae'r rhain wedi cael eu hystyried ers erioed gan banel bach);
 - cynigion ar gyfer gweddill y Gronfa.
- Bydd hyn yn sicrhau bod y GSAU CC yn cael darlun cynhwysfawr o'r datblygiadau a, lle y mae cynigion yn ymwneud â phynciau a nodwyd ar gyfer datblygu cydweithiol, bydd yn gallu dwyn y rhain ynghyd yn strategaethau pwnc sectoraidd cydlynol.

MONITRO

- 25 Byddwn yn monitro'r defnydd o gyllid a'r cynnydd a wneir gyda'r prosiectau drwy'r CDACC mewn ffordd debyg i honno a ddefnyddir ar gyfer y Cynlluniau Ysgoloriaethau a Chymrodoriaethau a'r cyllid datblygu ar gyfer prosiectau y mae'r Ganolfan wedi'u gweinyddu'n flaenorol ar ran CCAUC. Bydd hyn yn cynnwys trafod cynnydd gyda'r sefydliadau/paneli rhwydwaith/grwpiau cydweithiol ac ati a rhoi gwybod i swyddogion CCAUC yn anffurfiol am y datblygiadau diweddaraf, yn ogystal ag adroddiadau ffurfiol ar gynnydd yn erbyn cynlluniau prosiect y cytunwyd arnynt. Gall yr adroddiadau hyn wedyn fod yn sylfaen ar gyfer adroddiadau ar gynnydd i'r GSAU CC.

YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

26 ***Ceisir barn yn benodol ar:***

- i) Y meini prawf allweddol a nodir ym mharagraff 7;***
- ii) Y trefniadau ar gyfer y Gronfa Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg a nodir ym mharagraffau 13 i 16;***
- iii) Y trefniadau trosiannol a nodir ym mharagraff 19 a/neu'r dull arall a nodir ym mharagraffau 22 i 24;***
- iv) A bwrw bod y dull arall yn cael ei fabwysiadu, a ddylid rhoi'r gorau yn 2007/08 i'r elfen o'r Gronfa a ddefnyddir i wneud taliadau ychwanegol am gynydd mewn cofrestrïadau CALI yn erbyn man cychwyn 2001/02.***

27 Byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymatebion at Dr Alison Allan, Uwch Reolwr Dysgu ac Addysgu, CCAUC, Cwrt Linden, Y Berllan, Llanisien, Caerdydd CF14 5DZ (alison.allan@hefcw.ac.uk) erbyn **27 Gorffennaf 2007**.

Cronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg 2003/04 to 2006/07

Roedd y rhain yn cynnwys dyraniadau creiddiol i Brifysgol Cymru, Aberystwyth; Prifysgol Cymru, Bangor; Coleg y Drindod Caerfyrddin; ac Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (APCC). Rhoddwyd rhan o'r gronfa o'r neilltu i alluogi sefydliadau, ar wahân i PC Aberystwyth, PC Bangor a Choleg y Drindod, i wneud ceisiadau am gyllid datblygu drwy'r Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae cyfran o'r Gronfa ar gael hefyd i'w dyrannu ar sail y cynnydd mewn cofrestrïadau CALI yn erbyn man cychwyn 2001/02: trosglwyddir unrhyw arian sydd heb gael ei ddyrannu i gyllideb raglen y Ganolfan ar gyfer prosiectau a gweithgareddau a fydd yn fuddiol i'r sector cyfan.

**CRONFA DARPARIAETH CYFRWNG GYMRAEG
DYRANIADAU 2006/07**

	Cronfa Greiddiol	Cofrestrïadau Ychwanegol (CALI) (b)	Dyraniad Ychwanegol am Gofrestrïadau (£422 pob CALI)	Cyfanswm y Dyraniad
	£		£	£
Prifysgol Cymru, Aberystwyth	46,763		0	46,763
Prifysgol Cymru, Bangor	102,880		0	102,880
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	66,897	40	16,880	83,777
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	12,992		0	12,992
Canolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg (a)	51,970		0	51,970
Is-gyfanswm	281,502		16,880	298,382
Dyraniad ychwanegol i Gyllideb Rhaglenni: Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg				26,428
Cyfanswm				324,810

(a) Bydd y sefydliadau a ganlyn yn gymwys i wneud cais am yr arian hwn drwy'r Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg

Prifysgol Morgannwg
Prifysgol Caerdydd
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan
Prifysgol Cymru Abertawe
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd

Prifysgol Cymru, Casnewydd
Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru
Athrofa Addysg Uwch Abertawe
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

(b) Mae Atodiad A (ii) yn dangos cofrestrïadau ar gyfer y cyfnod 2001/02 to 2004/05